OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 678

# Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004

**Cynnwys ychwanegol yr hysbysiad sy'n gwahodd cymryd rhan**

**3.**—(1) Rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd cymryd rhan(**1**)) gynnwys (yn ychwanegol at y datganiadau a'r gwahoddiad y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) i (c) o is-adran (2) o adran 78 (hysbysiad yn gwahodd cymryd rhan) o Ddeddf 2002), y manylion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) Rhif cofrestredig y cwmni RTM(**2**), cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig ac enwau ei gyfarwyddwyr a'i ysgrifennydd;

(b) enwau'r landlord ac unrhyw drydydd parti;

(c) datganiad, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a grybwyllir yn is-baragraff (d), os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y bydd y cwmni'n gyfrifol am—

(i) cyflawni dyletswyddau'r landlord o dan y les; a

(ii) arfer ei bwerau o dan y les,

o ran gwasanaethau, trwsio, cynnal a chadw, gwelliannau, yswiriant a rheoli;

(ch) datganiad, yn ddarostyngedig i'r eithriad a grybwyllir yn is-baragraff (d)(ii), os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y caiff y cwmni orfodi cyfamodau tenant na chafodd eu trosglwyddo(**3**));

(d) datganiad, os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, na fydd y cwmni'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau'r landlord nac arfer ei bwerau o dan y les—

(i) o ran mater sy'n ymwneud yn unig â rhan o'r fangre sy'n fflat neu'n uned arall nad yw'n ddarostyngedig i les a gaiff ei dal gan denant cymwys(**4**); neu

(ii) ynghylch ailfynediad neu fforffediad;

(dd) datganiad, os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y bydd gan y cwmni swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 7 i Ddeddf 2002;

(e) datganiad bod y cwmni RTM yn bwriadu neu, yn ôl y digwydd, nad yw'n bwriadu, penodi asiant rheoli o fewn ystyr adran 30B(8) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**5**); ac,

(i) os yw'n fwriad o'r fath ganddo, ddatganiad—

(aa) o enw a chyfeiriad yr asiant rheoli arfaethedig (os yw'n wybyddus); a

(**1**) *Gweler* adran 78(2) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**2**) *Gweler* adran 705(1) o Ddeddf Cwmnïau 1985 (p.6). Amnewidiwyd adran 705 gan Ddeddf Cwmnïau 1989 (p.40), Atodlen 19, paragraff14.

(**3**) Er mwyn "untransferred tenant covenants" ("cyfamodau tenant na chafodd eu trosglwyddo") gweler adran 100(4) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**4**) O ran y mangre y mae Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cyfunddaliad a Cyfraith Diwygio a Lesddaliad 2002 yn gymwys, *gweler* adran 72 (ac Atodlen 6). ). I gael diffiniad o "flat" ("fflat") ac "unit" ("uned") *gweler* adran 112(1). I gael diffiniad o "lease" ("les") *gweler* adran 112(2). I gael diffiniad o "qualifying tenant" ("tenant cymwys"), *gweler* adrannau 75 a 112(4) a (5).

(**5**) 1985 p.70. Mewnosodwyd adran 30B gan Ddeddf Landlord a Thenant 1987 (p.31), adran 44.

(bb) os yw'n wir, bod y person yn asiant rheoli i'r landlord; neu

(ii) os nad yw'n fwriad o'r fath ganddo, cymwysterau neu brofiad (os oes rhai) aelodau presennol y cwmni RTM mewn perthynas â rheoli eiddo preswyl;

(f) datganiad, os bydd y cwmni'n rhoi hysbysiad hawlio(**6**), y gall person sydd neu sydd wedi bod yn aelod o'r cwmni fod yn atebol am gostau a dynnwyd gan y landlord ac eraill o ganlyniad i'r hysbysiad;

(ff) datganiad, os nad yw'r sawl sy'n derbyn yr hysbysiad (yn gwahodd i gymryd rhan) yn llwyr ddeall ei ddiben neu ei oblygiadau, sy'n ei gynghori i geisio cymorth proffesiynol; ac

(g) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) I gael diffiniad o "claim notice" ("hysbysiad hawlio") *gweler* adran 79(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.